

Rhestr Termau Safonol

Standardised Terminology List

English > Cymraeg

Ystyriaethau Cyffredinol

Acronymau

Dylid eu hosgoi oni bai eu bod yn gyfarwydd iawn, er enghraifft, 'BCN' am y Beibl Cymraeg Newydd. Yn achos teitlau hirion sy'n digwydd droeon yn yr un ddogfen, dylid rhoi'r teitl llawn i gychwyn ac yna rhan ohono, er enghraifft, 'y Comisiwn' ar gyfer 'Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol'. Ni ddylid defnyddio atalnodau llawn o fewn acronymau.

Yr Amhersonol

Mae'n fwy naturiol, fel arfer, osgoi ffurfiau amhersonol ar y ferf yn y Gymraeg, er enghraifft, yn hytrach nag ysgrifennu 'Arweiniwyd y gwasanaeth gan yr Esgob' gwell ysgrifennu 'Arweiniodd yr Esgob y gwasanaeth' neu 'Yr Esgob a arweiniodd y gwasanaeth'. Os defnyddio'r amhersonol, dylid defnyddio'r ffurfiau cryno fel arfer, hynny yw, 'Rhoddwyd y wobr er cof am y Gweinidog' yn hytrach na 'Cafodd y wobr ei rhoi er cof am y Gweinidog'.

Byrfoddau

Dylid eu hosgoi fel egwyddor gyffredinol, er enghraifft, rhodder 'hynny yw' yn lle 'h. y.'.

Cyfeiriadau Beiblaidd

Dylid defnyddio enw llawn y llyfr oni bai fod gofod yn broblem. Bryd hynny dylid defnyddio talfyriadau'r Beibl Cymraeg Newydd. Dylid defnyddio rhif Rhufeinig ar gyfer rhif y llyfr a rhif Arabeg ar gyfer y bennod a'r adnod gyda cholon rhwng rhif y bennod a rhif yr adnod, er enghraifft, 'II Corinthiaid 5:2'.

Cytûn

Nid "CYTÛN" oherwydd mai enw, nid acronym, ydyw.

Dyddiadau

Dilyner y patrwm '25 Rhagfyr 2011'.

Dyfyniadau Saesneg

Dylid cyfieithu dyfyniadau rhyddiaith fel egwyddor gyffredinol. Fel arfer, ni ddylid cyfieithu barddoniaeth Saesneg ond pan fo'n briodol gellid defnyddio darn o farddoniaeth sy'n cyfleu neges gyffelyb yn y Gymraeg.

Enwau lleoedd

Defnyddier y ffurfiau cywir Cymraeg ar enwau lleoedd bob tro boed y lle dan sylw yng Nghymru neu mewn gwlad arall. Mewn achosion lle gallai'r enw cywir fod yn anghyfarwydd, gellir rhoi'r enw mwy adnabyddus mewn cromfachau i ddilyn pan ddefnyddir yr enw gyntaf mewn unrhyw ddogfen, er enghraifft, Llannerch Panna (Penley), Llanfihangel Genau'r Glyn (Llandre), Ynys Metcawd (Lindisfarne). Dylid defnyddio'r ffurfiau Cymraeg a gymeradwyir ar wefan Enwau Cymru. Ni ddylid fel arfer ddefnyddio priflythrennau ar gyfer y fannod mewn enwau lleoedd os nad yw'r enw'n digwydd ar ddechau brawddeg, er enghraifft, 'yn y Bala', nid 'yn Y Bala'.

Ffurfiau benywaidd ar deitlau / swyddogaethau

Ni ddylid defnyddio ffurfiau megis 'ysgrifenyddes', 'awdures' ac ati oni bai mai dyna'r defnydd arferol o fewn y cyd-destun, er enghraifft, 'athrawes' fyddai'n arferol o fewn cyd-destun ysgol ac Ysgol Sul, ac mae 'organyddes' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn cyd-destun eglwysig hefyd.

Parchedig

Argymhellir peidio â defnyddio'r ffurf 'y Barchedig'. Er mai ansoddair yw'r gair 'parchedig' fel rheol, a'i fod felly yn treiglo o flaen enw benywaidd, gellir hefyd ei ddefnyddio gyda grym enwol, er enghraifft, 'Aethom i weld y parchedig i drefnu'r briodas'. Yn yr ystyr hon, enw gwrywaidd ydyw, yn cyfateb i'r enw 'gweinidog' neu 'offeiriad'. Y mae'r enw hefyd yn deitl, 'y Parchedig', ac nid oes angen ei dreiglo o flaen enw benywaidd mwy nag y byddai angen treiglo unrhyw deitl arall, er enghraifft, 'y Cynghorydd'. Hefyd, mae rhoi i weinidogion benywaidd a gwrywaidd yr un teitl yn dynodi nad oes unrhyw wahaniaeth statws rhyngddynt.

Dylid defnyddio'r ffurf lawn 'y Parchedig' fel arfer, ond gellir defnyddio 'Parchg' (nid 'Parch' na 'Parch'g') os bydd angen. Dilyner yr un egwyddor gydag 'y Parchedigion'.

Rhagenwau a all gyfeirio at y naill ryw neu'r llall

Dylid osgoi hyd y gellir ffurfiau trwsogl megis 'ei (h)ordeinio', 'ei bregeth/phregeth', er enghraifft, yn lle dweud 'Yna bydd y gweinidog yn traddodi ei bregeth/phregeth' gellid dweud 'Yna bydd y gweinidog yn traddodi pregeth'. Os na ellir gwneud hynny, dylai'r ffurf wrywaidd sefyll dros y ddau ryw. Pan ddigwydd y patrwm Saesneg anramadegol o osod 'they' neu 'their' i gyfeirio at unigolyn, er mwyn osgoi'r benywaidd a'r gwrywaidd, er enghraifft, 'The minister preached their sermon on humility' ni ddylid dilyn hynny mewn cyfieithiad Cymraeg.

Rhagenwau yn cyfeirio at y Duwdod

Ni ddylid defnyddio priflythyren, er enghraifft, 'Y mae Duw yn ymyrryd yn ei fyd'.

Rhestr

Dylid osgoi achosi'r angen am dreigladd ar ddechrau eitemau mewn rhestr, er enghraifft, yn lle

Penderfynodd y Comisiwn:

1. *gadw'r cyfraniadau fel y maent am y tro*
2. *ofyn am daliad erbyn diwedd y flwyddyn*
3. *ddiwugio'r rheolau'n unol â hynny ...*

gellid rhoi

Penderfynodd y Comisiwn weithredu fel a ganlyn:

1. *cadw'r cyfraniadau fel y maent am y tro*
2. *gofyn am daliad erbyn diwedd y flwyddyn*
3. *diwigio'r rheolau'n unol â hynny ...*

Os nad yw'n bosibl osgoi'r treigladd, peidier â threiglo ar ôl yr eitem gyntaf:

Penderfynodd y Comisiwn:

1. *gadw'r cyfraniadau fel y maent am y tro*
2. *gofyn am daliad erbyn diwedd y flwyddyn*
3. *diwigio'r rheolau'n unol â hynny ...*

Sant

Dilyner yr arfer o osod 'Sant' ar ôl yr enw yn achos sant Celtaidd, er enghraifft, 'Tysilio Sant', ac o flaen yr enw ym mhob achos arall, er enghraifft, 'Sant Ioan', gan gydnabod y ceir ambell eithriad i'r rheol hon, megis 'Awstin Sant'.

Teitlau swyddi/urddau

Ni ddylid defnyddio priflythrennau (rheithor, gweinidog, diacon ac ati) heblaw pan y'u defnyddir gydag enw'r deiliad, er enghraifft, 'yr Esgob Wyn' neu gydag enw'r esgobaeth, plwyf ac ati a wasanaethir, er enghraifft, 'Rheithor Eglwys Sant Ioan'. Anghywir yw ffurfiau heb y fannod o flaen enwau personol; er enghraifft, ystyr 'dywedodd Esgob Barry' yw 'the Bishop of Barry said'. Y ffurf gywir ar 'Bishop Barry said' fyddai 'dywedodd yr Esgob Barry'. Ni ddylid defnyddio priflythyren yn y fannod gyda theitl ar ganol brawddeg, er enghraifft, 'Pregethodd y Parchedig John Jones ...'.

Ymadroddion Lladin

Dylid osgoi defnyddio ymadrodd Lladin pan fo ymadrodd Cymraeg cyfatebol ar gael, er enghraifft, 'ac ati' neu 'ac yn y blaen' (ond nid 'a.a.' nac 'a.y.y.b.') yn lle 'etc'.

Geiriau a Thermau Penodol

Gosodwyd y ffurfiau Saesneg yn union drefn yr wyddor. Yr unig eithriad yw pan fo'r fannod ar gychwyn y term: bryd hynny, gosodir yr ail air yn ei safle yn nhrefn yr wyddor.

Nodir gyda'r llythrennau canlynol mewn cromfachau eiriau ac ymadroddion sy'n perthyn yn arbennig i draddodiadau a chyd-destunau penodol:

A – Yr Eglwys Anglicanaidd, C – Cytûn / Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, M – Yr Eglwys Fethodistaidd, P – Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Byrfoddau eraill: (a) – ansoddair, (b) – enw benywaidd, (g) – enw gwrywaidd, yn achos geiriau Cymraeg; (a) – ansoddair, (n) – enw, (occ) – weithiau, (v) – berf, yn achos geiriau Saesneg.

Nodir terfyniadau neu, pan fo'n berthnasol, ffurfiau llawn, ar gyfer y lluosog (ac eithrio pan na ddefnyddir ffurf luosog ar y term fel arfer) rhwng cromfachau ar ôl y ffurfiau unigol.

Dangosir ffurfiau amrywiol posibl mewn cromfachau cyrliog, er enghraifft, 'llieiniau{r} allor{au}'.

Nodir camgymeriadau cyffredin mewn cromfachau petryal.

absolution	gollyngdod(au) (g)
absolve	rhyddhau oddi wrth bechod
accompanist (<i>for appraisal</i>) (M) (<i>musical</i>)	cydymaith (cymdeithion) (g) cyfeilydd(ion) (g)
accompany (<i>in the context of mission</i>)	cyd-deithio
Action for Children (M)	Gweithredu dros Blant
Action of Churches Together in Scotland (ACTS)	Eglwysi Ynghyd yn yr Alban
administer (<i>Communion</i>)	rhoi'r elfennau, dosbarthu'r elfennau, gweinyddu'r elfennau
administrative assistant	cynorthwywr (cynorthwywyr) gweinyddol (g)
administrator	gweinyddwr (gweinyddwyr) (g)
admission of lay preacher (M)	derbyn pregethwr lleyg
Advance and Priority Fund (M)	Cronfa (b) Gynnydd
Advent	Adfent (g)
advocate	hyrwyddwr (hyrwyddwyr) (g), lladmerydd(ion) (g)
Advocate	yr Ysbryd (g), yr Eiriolwr (g)
All Saints' Day	Gŵyl (b) yr Holl Saint
All Souls' Day	Dygwyl (g) y Meirw
almshouse	elusendy (elusendai) (g)
altar (A)	allor(au) (g)
altar cloth (A)	lliaian (g) {yr} allor, (llieiniau{'r} allor{au})
altar rails (A)	rheiliau{'r} allor
altar server (A)	gwas (g) (gweision) allor
Anglican Alliance (A)	y Cynghrair Anglicanaidd (g)
Anglican Communion (A)	y Cymundeb [nid Cyfundeb] Anglicanaidd (g)
Anglican Consultative Council (A)	y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd (g)

Anglican-Methodist International Commission for Unity in Mission (AMICUM) (A, M)	y Comisiwn Anglicanaidd a Methodistaidd Rhyngwladol (g) ar Undod mewn Cenhadu
Anglo-Catholic (A) (a)	Eingl-Gatholig
Anglo-Catholic (A) (n)	Eingl-Gatholig (g, b)
annual development review (M)	arolwg (arolygon) blynyddol (g) ar ddatblygiad
annual vestry meeting (A)	cyfarfod(ydd) (g) festri blynyddol
Annunciation of the Blessed Virgin Mary	Cyfarchiad (g) Mair Forwyn Fendigaid
apostle	apostol(ion) (g)
Apostles' Creed	Credo'r (g) Apostolion
apostolate (<i>status</i>) (<i>period of time</i>)	apostolaeth(au) (b) apostolawd(au) (g)
apostolic	apostolig, apostolaidd
apostolic succession	{yr} olyniaeth apostolaidd (b)
apostolicity	apostoligrwydd (g)
Applications Department (A)	Adran (b) Geisiadau
appoint	penodi
appoint as	penodi yn, er enghraifft, 'penodwyd John Jones yn esgob' [nid 'penodi ... fel']
archbishop (A)	archesgob(ion) (g)
Archbishop of Wales' Fund for Children (A)	Cronfa (b) Archesgob Cymru er budd Plant
Archbishop's Media Officer (A)	Swyddog (g) Cyfryngau'r Archesgob
Archbishop's Registry (A)	Cofrestrfa'r (b) Archesgob
archdeacon (A)	archddiacon(iaid) (g)
archdeaconry (A)	archddiaconiaeth(au) (b)
archiepiscopal (A)	archesgobol
archiepiscopal see (A)	esgobaeth archesgobol (b)

area dean (A)	deon(iaid) (g) bro
area leader (M)	arweinydd (arweinwyr) (g) ardal
Armistice Day	Dydd (g) y Cadoediad
Ascension	y Dyrchafael (g)
Ascension Day (<i>in some dialects</i>)	Dydd (g) Iau'r Dyrchafael Difiau (g) Dyrchafael
Ash Wednesday	Dydd (g) Mercher y Lludw
assembly	cymanfa(oedd) (b), cynulliad(au) (g)
assessment (M)	trethiant ariannol (g)
association (P)	cymdeithasfa(oedd) (b)
Association in the East (P)	y Gymdeithasfa (b) yn y Dwyrain
Association in the North (P)	y Gymdeithasfa (b) yn y Gogledd
Association in the South (P)	y Gymdeithasfa (b) yn y De
asylum seeker	ceisiwr (ceiswyr) (g) lloches
Athanasian Creed	Credo (g) Athanasiws
atonement	iawn (g)
authorisation	awdurdod (g)
authorisation to administer (M)	awdurdod (g) i weinyddu
authority	awdurdod(au) (g)
baptize	bedyddio
baptism	bedydd(iadau) (g)
baptism by aspersion	bedydd(iadau) (g) drwy daenelliad
baptism by immersion	bedydd(iadau) (g) drwy drochiad
Baptism, Eucharist and Ministry (C)	Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth
baptism vow	adduned(au) (b) bedydd
Baptismal Creed	Credo'r (g) Bedydd
baptist church	eglwys fedyddiedig (eglwysi bedyddiedig) (b)

baptistry	bedyddfan(nau) (b)
Beatitudes	y Gwynfydau
become engaged	dyweddïo
being church	bod yn eglwys
belfry	clochdy (clochdai) (g)
bell ringer	clochydd(ion) (g)
<i>bene esse</i> (of the Church)	budd (g) (yr Eglwys)
benefice (A)	bywoliaeth(au) (b)
Bible	Beibl(au) (g)
Bible Sunday	Sul (g) y Beibl
bidding prayer	gweddi (gweddïau) atolygol (b)
bishop	esgob(ion) (g)
bishop's visitation (A) (<i>spoken</i>)	gofwy(on) (g) yr esgob ymweliad(au) (g) yr esgob
Bishops' Adviser (A)	Cynghorwr (g) yr Esgobion
blasphemy	cabledd(au) (g)
blessing	bendith(ion) (b)
body in association (C)	corff (cyrff) cysylltiedig (g)
Book of Common Prayer (A)	Llyfr (g) Gweddi Gyffredin
Boxing Day	Gŵyl (b) Sant Steffan
breaking of bread	torri'r bara
broad church (n) (A) (a)	eglwys(i) eang (b) eangeglwysig
broad churchmanship (A)	eangeglwysyddiaeth (b)
Buddhist (n) (a)	Bwdhydd(ion) (g) Bwdhaidd
burial ground	claddfa (claddfeydd) (b)

burial service	gwasanaeth(au) claddu (g)
Calvin	Calfin
Calvinism	Calfiniaeth (b)
Calvinist (n) (a)	Calfinydd (Calfiniaid) (g) Calfinaidd
Calvinistic Methodist (n) (P) (a)	Methodist(iaid) Calfinaidd (g) Methodistaidd Galfinaidd
candidate	ymgeisydd (ymgeiswyr) (g)
candidate (v) (M)	ymgeisio
Candidates and Training Department (P)	Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant (b)
Candlemas	Gŵyl (b) Fair y Canhwyllau
candlestick	canhwyllbren (canwyllbrennau) (b)
canon (<i>church law</i>) (A) (<i>cleric</i>) (A)	canon(au) (g) canon(iaid) (g)
canon lawyer (A)	cyfreithiwr (cyfreithwyr) eglwysig (g)
capacity (<i>ability</i>)	gallu (g)
Cardiff East Ecumenical Mission Council (C)	Cyngor (g) Cenhadol Eciwmenaidd (g) Dwyrain Caerdydd
carol	carol(au) (b)
carol service	gwasanaeth(au) (g) carolau
cassock	casog(au) (b)
cathedral	eglwys gadeiriol (eglwysi cadeiriol) (b), cadeirlan(nau) (b)
Cathedrals and Churches Commission (A)	Comisiwn (g) Cadeirlannau ac Eglwysi
Catholic Epistles	yr Epistolau Cyffredinol
Catholicism	Catholigiaeth (b)
catholicity	catholigrwydd (g)
celebrant (A)	llywydd(ion) (g)

celebrate (at Communion) (A) (a feast)	llywyddu (yn y Cymun) dathlu (gŵyl)
celibate	dibriod, diwair
chair of district (M)	cadeirydd(ion) (g) talaith
chair of synod (M)	cadeirydd(ion) (g) synod
chalice	caregl(au) (g), cwpan(au) (g)
chancel (A)	cangell (canghellau) (b)
Chancel Repair Fund (A)	Cronfa (b) Atgyweirio'r Gangell, Cronfa (b) Atgyweirio Cangell
chancel steps (A)	grisiau'r gangell, grisiau cangell
chancellor (A)	canghellor (cangellorion) (g)
chapel	capel(i) (g)
chapel of ease (A)	capel(i) anwes (g)
chapel of rest	capel(i) gorffwys (g)
chaplain	caplan(iaid) (g)
chaplaincy (<i>institution</i>) (<i>premises</i>)	caplaniaeth(au) (b) caplandy (caplandai) (g)
chapter (A) (<i>canons of a cathedral</i>)	cabidwl (cabidylau) (g)
chapterhouse (A)	cabidyldy (cabidyldai) (g)
charity	elusen(nau) (b)
Charity Commission	y Comisiwn (g) Elusennau
chasuble (A)	casul(au) (g)
Children and Youth Service Department (P)	Adran (b) Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
children's service	gwasanaeth(au) (g) plant
choir	côr (corau) (g)
choirboy	côr-fachgen (côr-fechgyn) (aelodau o'r côr) (g)
choirgirl	côr-eneth(od) (aelodau o'r côr) (b)

choirmaster	côr-feistr(i) (g)
Choral Evensong (A)	Gosber Corawl (g)
chorister	aelod (g) o'r côr
Christ of faith	Crist y ffydd
Christian Aid	Cymorth Cristnogol (g)
Christian Centre for Rural Wales	Canolfan Gristnogol (b) Cefn Gwlad Cymru
Christianity	Cristnogaeth (b) [nid 'Cristionogaeth']
Christendom	Gwledydd Cred
Christmas	{y} Nadolig (g)
Christology	Cristoleg (b)
church	eglwys(i) (b)
Church and Society Department (P)	Adran (b) Eglwys a Chymdeithas
church council	cyngor (cyngorau) (g) eglwys(i) (g)
church court	llys(oedd) eglwysig(i) (g)
church governance	llywodraeth eglwysig (b), llywodraethu eglwysig, trefn lywodraethol eglwysig (b)
church hall	neuadd(au) (b) eglwys(i)
{the} Church in Wales (A)	yr Eglwys (b) yng Nghymru
church leader	arweinydd (g) {yr} eglwys (arweinwyr eglwysig, arweinwyr {yr} eglwysi)
{the} Church of North India	Eglwys (b) Gogledd India
{the} Church of South India	Eglwys (b) De India
church room	ystafell(oedd) (b) eglwys(i)
church school (A)	ysgol(ion) (b) eglwys
church steward (M)	swyddog(ion) (g) eglwys(i)
church warden (A)	warden(iaid) (g) eglwys(i)
Churches and Pastoral Committee (A)	Pwyllgor (g) Eglwysi a Bugeiliaeth

Churches' Commission for Migrants in Europe (C)	Comisiwn (g) yr Eglwysi ar Ymfudwyr yn Ewrop
Churches' Main Committee	Prif Bwyllgor (g) yr Eglwysi
Churches Together in Britain and Ireland (CTBI)	Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
Churches Together in England (CTE)	Eglwysi Ynghyd yn Lloegr
churchyard	mynwent(ydd) (b) eglwys(i)
ciborium	ciboriwm (ciboria) (g)
circuit (M)	cylchdaith (cylchdeithiau) (b)
circuit meeting (M)	cyfarfod(ydd) (g) cylchdaith
circuit steward (M)	goruchwyliwr (g) (goruchwylwyr) cylchdaith, (goruchwylwyr cylchdeithiau)
civil marriage	priodas(au) sifil (b)
civil partnership	partneriaeth(au) sifil (b)
class leader (M)	blaenor(iaid) (g) dosbarth(iadau)
clergy terms of service (A)	amodau gwaith clerigion, telerau gwasanaeth clerigion
cleric	clerig (g)
clerics (<i>historically</i>) (<i>if an inclusive term is required</i>)	clerigwyr clerigion
clerk (A)	clerc(iaid) (g)
clerk (P)	ysgrifennydd (ysgrifenyddion) (g)
clerk in holy orders (A)	clerc(iaid) (g) mewn urddau eglwysig (g)
Coleg Trefeca Department (P)	Adran (b) Coleg Trefeca
Coleg y Bala Department (P)	Adran (b) Coleg y Bala
collate	coladu
collect (<i>prayer</i>)	colect(au) (g)
collection	casgliad(au) (g)

college	coleg(au) (g)
collegial (A)	colegaidd, colegol
collegial church (A)	eglwys golegol (eglwysi colegol) (b)
Collegial Church of St Mary, Swansea (A)	Eglwys Golegol (b) y Santes Fair, Abertawe
collegiality	colegoldeb (g)
collegially	yn golegol
commandment	gorchymyn (gorchmynion) (g)
commentary (<i>biblical</i>)	esboniad(au) (g)
commission (n) (v)	comisiwn (comisiynau) (g) comisiynu
Commission of the Covenanted Churches in Wales (C)	Comisiwn (g) yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru
commissioning	comisiynu
committee	pwyllgor(au) (g)
common faith	ffydd gyffredin (b)
Common Investment Fund (A)	Cronfa (b) Buddsoddiadau Cyffredin
Common Tenure (A)	Cyd-ddaliadaeth, Daliadaeth Gyffredin
communicant	cymunwr (cymunwyr) (g) cymunwraig (cymunwragedd) (b)
Communications Officer (P)	Swyddog (g) Cyfathrebu
Communications Panel (P)	Panel (g) Cyfathrebu
Communion	Cymun (g)
Communion bread	bara (g) Cymun
Communion rail (M)	rheiliau Bwrdd {y} Cymun
Communion wine	gwin (g) Cymun
community ministry (C)	gweinidogaeth(au) (b) bro
Companions for Change (C)	Cymdeithion am Newid

Compline (A)	Cwmplyn (g)
composition (of committee)	aelodaeth (pwyllgor) (b)
concelebrate	cydlywyddu
conciliar	cynghoraidd
conciliar fellowship	cydberthynas gynghoraidd (b)
Conference of European Churches	Cynhadledd (b) Eglwysi Ewrop
Conference Memorial Committee (M)	Pwyllgor (g) Cynigion y Gynhadledd
confession	cyffes(ion) (b)
confirmation (A)	bedydd (g) esgob
(A, M)	conffyrmasiwn (g)
(M, P)	derbyn yn gyflawn aelod
confirmation class (A)	dosbarth(iadau) (g) conffyrmasiwn
confirmation class (M)	dosbarth(iadau) derbyn (g)
congregation	cynulleidfa(oedd) (b)
congregational	cynulleidfaol
Congregational Federation	y Ffederasiwn Cynulleidfaol (g)
congregationalism	cynulleidfaoliaeth (b)
	Annibyniaeth (b)
congregationalist	cynulleidfaolwr (cynulleidfaolwyr) (g)
	Annibynnwr (Annibynwyr) (g)
connexion	cyfundeb(au) (g)
Connexion Boards (P)	Byrddau'r Cyfundeb
Connexional Team (M, P)	Tîm Cyfundebol (g)
connexional year (M)	blwyddyn gyfundebol (blynyddoedd cyfundebol) (b)
consecrate	cysegru
consecration	cysegru
	cysegriad(au) (g)
consecration service	gwasanaeth(au) (g) cysegru

constitution	cyfansoddiad(au) (g)
Constitutional Practice and Discipline of the Methodist Church (CPD) (M)	Arferion Cyfansoddiadol a Disgyblaeth yr Eglwys Fethodistaidd
consubstantiation	cydsylweddiad (g)
continuing development in ministry (M) (A)	datblygiad parhaus (g) yn y weinidogaeth datblygu gweinidogaethol parhaus
conventional district (A)	ardal gonfensiynol (ardaloedd confensiynol) (b)
Convocation (M)	Confocasiwn (g)
corporate life of the church	bywyd cyffredin (g) yr eglwys, bywyd (g) yr eglwys fel corff
Council for Christians and Jews	Cyngor (g) Cristnogion ac Iddewon
Council for World Mission (CWM)	Cyngor (g) y Genhadaeth Fyd-eang
covenant (n) (v)	cyfamod(au) (g) cyfamodi
covenant secretary (A)	ysgrifennydd (g) y cyfamodau
covenant service	gwasanaeth(au) (g) cyfamod, gwasanaeth (g) cyfamodi
Covenant Service (M)	Gwasanaeth (g) y Cyfamod
Covenant Sunday	Sul (g) y Cyfamod
Creator	Creawdwr (g), Crëwr (g)
credal statement	datganiad(au) (g) o gred
credence table (A)	bwrdd (byrddau) (g) credens
creed	credo (g)
cross	croes(au) (b)
cross oneself	ymgroesi
cross-border	trawsffiniol
crucifix	delw fechan (b) o Grist ar y Groes
cultural identity	hunaniaeth ddiwylliannol (b)

cup	cwpan(au) (g)
curate (A)	curad(iaid) (g)
cursal canon (A)	canon(iaid) cwrsal (g)
curtilage (A)	cwrtil(au) (g)
Cytûn – Churches Together in Wales (C)	Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Davies Lecture Panel (P)	Bwrdd (g) y Ddarlith Davies
Day of Judgement	Dydd (g) y Farn
Deacon (M) (<i>title</i>) (M) (<i>occ</i>)	Diacon(iaid) (g) y Diacon chwaer (<i>chworydd</i>) (b)
Deacons' Seat	Sêl Fawr (b)
Dead Sea Scrolls	Sgroliau'r Môr Marw
dean (A)	deon(iaid) (g)
deanery (<i>area</i>) (A) (<i>premises</i>) (A)	deoniaeth(au) (b) deondy (<i>deondai</i>) (g)
deanery chapter (A)	siapter {y d}deoniaeth (<i>siapteri deoniaeth, siapteri deoniaethau</i>) (g)
deanery conference (A)	cynhadledd ddeoniaethol (<i>cynadleddau deoniaethol</i>) (b)
Decalogue	y Dengair (g) Deddf
deliverance	achubiaeth (b)
demon	cythraul (<i>cythreuliaid</i>) (g)
demythologise	dadfytholegu
Department of Ministries (P)	Adran (b) Gweinidogaethau
Department of Spirituality (P)	Adran (b) Ysbrydolrwydd
development officer	swyddog(ion) (g) datblygu
diaconate (<i>office</i>) (<i>persons</i>)	diaconiaeth(au) (b) diaconiaid

diocesan (a) (A) (n)	esgobaethol esgob (g) yr esgobaeth
Diocesan Advisory Committee (A)	Pwyllgor Ymgynghorol (g) yr Esgobaeth
diocesan bishop (A)	esgob {yr} esgobaeth (g), esgob(ion) cadeiriol (g)
Diocesan Board of Education (A)	Bwrdd (g) Addysg yr Esgobaeth
Diocesan Board of Finance (A)	Bwrdd (g) Cyllid yr Esgobaeth
Diocesan Board of Ministry (A)	Bwrdd (g) y Weinidogaeth, Esgobaeth (<i>gydag enw'r esgobaeth berthnasol</i>)
Diocesan Conference (A)	Cynhadledd (b) {yr} Esgobaeth (Cynadleddau'r Esgobaeth) (Cynadleddau Esgobaethau)
Diocesan Director of Education (A)	Cyfarwyddwr (g) Addysg {yr} Esgobaeth
Diocesan Ecumenical Officer (A)	Swyddog Eciwmenaidd (g) {yr} Esgobaeth
Diocesan Inspector (A)	Arolygydd {yr} Esgobaeth (g)
Diocesan Inter-faith Officer (A)	Swyddog Rhyng-ffydd {yr} Esgobaeth (g)
Diocesan Nominations Board (A)	Bwrdd Enwebu{'r} (g) Esgobaeth, Bwrdd (g) Enwebiadau{'r} Esgobaeth
Diocesan Office (A)	Swyddfa{'r} (b) Esgobaeth
Diocesan Parsonage Board (A)	Bwrdd (g) Persondai{'r} Esgobaeth
Diocesan Patronage Board (A)	Bwrdd (g) Nawdd {yr} Esgobaeth
Diocesan Registrar (A)	Cofrestrydd (g) {yr} Esgobaeth
Diocesan Secretary (A)	Ysgrifennydd (g) {yr} Esgobaeth
Diocesan Selection Committee (A)	Pwyllgor (g) Dewis Ymgeiswyr {yr} Esgobaeth
Diocesan Trust (A)	Ymddiriedolaeth (b) {yr} Esgobaeth
Diocesan World Mission Officer (A)	Swyddog (g) Cenhadaeth Fyd {yr} Esgobaeth
diocese (A)	esgobaeth(au) (b)

Director of Finance (P)	Cyfarwyddwr Ariannol (g)
disciple	disgybl(ion) (g)
discipleship	bod yn ddisgybl, disgyblaeth (b)
disciplinary tribunal	tribiwnlys(oedd) (g) disgyblu
discipline	disgyblaeth(au) (b)
disendow	dadwaddoli
disendowment	dadwaddoli, dadwaddoliad (g)
disestablish	datgysylltu
disestablishment	datgysylltu, datgysylltiad (g)
Disestablishment of the Church in Wales (A)	Datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru
dispensation (M)	awdurdod arbennig (g)
district (M)	talaith (taleithiau) (b)
District Synod (M)	Synod (b) Talaith, Synod (b) y Dalaith
diversity	amrywiaeth (b), amrywioldeb (g)
divine (n)	diwinydd(ion) (g)
(a)	dwyfol
divorce (n)	ysgariad(au) (g)
(v)	ysgaru
docetism	docetiaeth (b)
Doctor (<i>title</i>)	y Doctor, y Doethur
doctrinal commission	comisiwn athrawiaeth (g)
doctrinal statement	datganiad(au) athrawiaethol (g), datganiad(au) (g) athrawiaeth
doctrine	athrawiaeth(au) (b)
Doctrine and Worship Panel (P)	Panel (g) Athrawiaeth ac Addoli
dogmatics	athrawiaetheg (b), dogmateg (b)
dualism	deuoliaeth (b)

during an interregnum (A)	pan fo'r plwyf yn wag
eagle (A)	eryr (g)
early Christians	Cristnogion cynnar
{the} Early Church	yr Eglwys Fore (b)
east window (A)	ffenestr y dwyrain (b)
Easter	y Pasg (g)
Easter Vigil	Noswyl (b) y Pasg
ecclesial	eglwysig
ecclesiastic	person(iaid) (g), cleric(wyr)(ion) (g), gŵr eglwysig (gwŷr eglwysig) (g), gwraig eglwysig (gwragedd eglwysig) (b) gwŷr a gwragedd eglwysig
ecclesiastics (<i>mixed gender group</i>)	
ecclesiastical	eglwysyddol, eglwysig
ecclesiastical court (A)	llys(oedd) eglwysig (g)
ecclesiastical exemption (A)	eithriad(au) eglwysig (g)
ecclesiology	eglwysoleg (b)
ecumenical	eciwmenaid
ecumenical bishop	esgob(ion) eciwmenaid (g)
ecumenical moderator	llywydd(ion) eciwmenaid (g)
ecumenical officer	swyddog(ion) eciwmenaid (g)
Ecumenical Panel (P)	Panel Eciwmenaid (g)
ecumenics	eciwmeneg (b)
ecumenism	eciwmeniaeth (b)
ecumenist	eciwmenydd (eciwmenwyr) (g)
elder	blaenor(iaid) (g)
Elders' Seat	Sêd Fawr (b)
elect (a)	etholedig
(v)	ethol

elect people of God	pobl etholedig (b) Duw
election (<i>doctrine</i>)	etholiad(au) (g) etholedigaeth (b)
electoral college (A)	coleg(au) ethol (g), coleg(au) etholiadol (g)
electoral roll (A)	rhôl (b) yr etholwyr (rholiau'r etholwyr)
Ember Days	Dyddiau'r Cydgoriau
Emergency Fund (P)	Cronfa (b) Argyfwng
Enabling Group (C)	Grŵp Galluogi (g)
enable	galluogi, hybu, hyrwyddo, ysgogi
enabler	galluogwr (galluogwyr) (g), hybwr (hybwyr) (g), hyrwyddwr (hyrwyddwyr) (g) ysgogydd (ysgogywr) (g)
engage	ennyn diddordeb, dwyn i mewn, cynnwys, ymgysylltu â, ymwneud â
Epiphany	yr Ystwyll (g)
episcopacy	esgobyddiaeth (b)
episcopal	esgobol
episcopal elector (A)	etholwr (g) (etholwyr) esgob
episcopalian (n) (A)	esgobaethwr (esgobaethwyr) (g), esgobydd (esgobwyr) (g)
(a)	esgobyddol
episcopalianism (A)	esgobwriaeth (b), esgobyddiaeth (b)
episcopate (<i>period of service of a bishop</i>) (A) (<i>persons</i>)	esgobawd(au) (b)
<i>episkope</i>	esgobion <i>episcope</i>
eschatology	esgatoleg (b)
esse (of the Church)	hanfod (yr Eglwys) (g)
eternal life	bywyd tragwyddol (g)

eternity	tragwyddoldeb (g)
ethics	moeseg (b)
Eucharist (<i>in technical contexts</i>)	Cymun (g) Ewcharist (g)
Eucharistic Prayer	y Weddi Ewcharistaidd (b)
evangelical (n)	efengyleiddiwr (efengyleiddwyr) (g) [nid 'efengylwr']
(a)	efengylaidd
Evangelical Alliance	y Cynghrair Efengylaidd (g)
{the} Evangelical Lutheran Church of ...	Eglwys Lwtheraidd Efengylaidd ... (b)
Evangelical Movement of Wales	Mudiad Efengylaidd (g) Cymru
evangelise	efengylu
evangelism	efengylu, efengyliaeth (b)
evangelism enabler	galluogwr (galluogwyr) efengylu (g), hybwr (hybwyr) efengylu ((g), hyrwyddwr (hyrwyddwyr) efengylu (g), ysgogydd (ysgogwyr) efengylu (g)
evangelist	efengyllydd (efengylwyr) (g), efengylwr (efengylwyr) (g)
eve of ...	noswyl ... (b)
Evening Prayer (A)	Hwyrol Weddi (b)
Evensong (A)	Gosber (g)
evil	drygioni (g)
<i>ex officio</i>	yn rhinwedd swydd
<i>ex-officio</i> member	aelod(au) (g) {yn rhinwedd} swydd
excommunicate	esgymuno
excommunication	esgymuniad(au) (g)
existentialism	dirfodaeth (b)
expiate	gwneud iawn am

expiation	iawn (g)
Extended Communion (M)	Cymun Estynedig (g)
fabric report (A)	adroddiad (g) ar yr adeilad
faculty (A)	hawleb(au) (b)
faculty regulations (A)	rheoliadau hawleb
faculty rules (A)	rheolau hawleb
fair trade	masnach deg (b)
faith	ffydd (b)
faith and order	ffydd a threfn
faith community	cymuned(au) (b) ffydd
Faith Communities Forum	Fforwm (g) Cymunedau Ffydd
Faith, Order and Witness Officer (C)	Swyddog (g) Ffydd, Trefn a Thystiolaeth
Fall (doctrine)	y Cwmp (g)
family service	gwasanaeth(au) teuluol (g), gwasanaeth(au) (g) teulu
federation	ffederasiwn (ffederasiynau) (g)
Finance Administrator (P)	Gweinyddwr Ariannol (g)
finance committee	pwylgor(au) (g) cyllid
first born	cyntafanedig
first fruits	blaenffrwyth (g)
fit for purpose	addas i'r diben, pwrpasol
fixtures, fittings and contents	gosodiadau, ffitiadau a chynnwys
flesh	cnawd (g)
font	bedyddfan(nau) (b)
for the triennium (A)	am y tair blynedd
for the quinquennium (A)	am y pum mlynedd
form (<i>in ministry</i>) (A, M)	ffurfio, ffurfiannu

formation (<i>in ministry</i>) (A) (M)	ffurfiant (g), ffurfiannaeth (b)
formulary	ffurfwasanaeth(au) (g)
free church	eglwys rydd (b) (eglwysi rhyddion)
Free Church Council of Wales	Cyngor (g) Eglwysi Rhyddion Cymru
Free Church Federal Council	Cyngor Ffederal (g) yr Eglwysi Rhyddion
fresh expression of church	mynegiant (g) newydd o'r eglwys
fruit of the Spirit	ffrwyth (g) yr Ysbryd
full interchangeability of ministry	cyflawn gydgyfnewid (g) gweinidogaeth
fund	cronfa (cronfeydd) (b)
funeral	angladd(au) (b), cynhebrwng (cynebryngau) (g)
funeral service	gwasanaeth(au) (g) angladd
gallery	galeri (galeriâu) (g)
gather	ymgynnull
gathering	cydgynulliad(au) (g), ymgynulliad (g)
Gathering (<i>of the Covenanted Churches</i>) (C)	Cydgynulliad (g)
General Assembly (P)	y Gymanfa Gyffredinol (b)
General Secretary	Ysgrifennydd Cyffredinol (g)
General Secretary of the Connexion (M, P)	Ysgrifennydd Cyffredinol (g) y Cyfundeb
Gentiles	y Cenhedloedd
gift (<i>spiritual</i>)	rhodd(ion) (b) dawn (doniau) (b)
gift aid	cymorth (g) rhodd
Gift Direct	Rhoi yn Syth
gift of the Spirit	dawn (b) yr Ysbryd (doniau'r Ysbryd)
global	byd-eang, cyflawn, cyffredinol, at ei gilydd
globalisation	globaleiddio, byd-ehangu

Gnosticism	Gnosticiaeth (b)
Good Friday	Dydd (g) Gwener y Groglith
goodness	daioni (g)
Gospel	Efengyl(au) (b)
the Gospel according to ...	yr Efengyl yn ôl ...
governance	llywodraeth (b), llywodraethu, trefn lywodraethol (b)
